



Huw Irranca-Davies AS
Y Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

09 Hydref 2026

Annwyl Lywydd

Rwy'n ysgrifennu atoch yn dilyn fy Natganiad Llafar 'Diweddariad ar y Cynllun Dychwelyd Ernes' a gyflwynais yn y Cyfarfod Llawn ar 22 Medi 2026.

Wrth ddarllen y Cofnod, sylwais fod dau fan yn fy nghyfraniadau lle roeddwn wedi bwriadu ei gwneud hi'n gliriach fy mod yn cyfeirio at y trefniadau ar gyfer gwydr yn y cynllun, yn hytrach nag at y cynllun yn ei gyfanrwydd. Felly, er mwyn sicrhau bod y cyfraniadau a fwrriadwyd gennyf yn cael eu cyfleu, hoffwn dynnu sylw at y manau hynny lle roeddent yn cyfeirio'n benodol at wydr, fel y dangosir mewn print trwm isod.

Paragraff 417

Ernes yw hi. Ernes yw hi; dydy e ddim yn gost ychwanegol. Oes, mae angen i'r pwyntiau dychwelyd hynny fod yn hygyrch, wrth gwrs y mae angen iddyn nhw fod, ond does dim ernes yn daladwy **ar wydr** yn y pedair blynedd gyntaf. Proses o addysgu yw hon, proses o weithio nawr gydag Exchange for Change i sicrhau bod y pwyntiau hynny mor hygyrch ac mor hawdd eu cyrraedd â phosibl. Nid dim ond ym maes manwerthu y byddan nhw ar gael. Gallaf i ddychmygu y bydd manau cyhoeddus lle bydd y pwyntiau dychwelyd hynny ar gael hefyd. Lle mae pobl yn tueddu i fynd neu ymgynnull, gallwn ni eu darparu. Ac mae hynny hefyd, rwy'n credu, yn rhywbeth y mae angen i ni gadw mewn cof.

Paragraff 420

Mae rhai pobl eisiau codi ofn. Mae yna faterion teg y bydd angen mynd i'r afael â nhw dros y 12 mis nesaf, ond dyna'r pwynt: fe fyddwn ni'n gweithio hyd at fis Hydref a'r dyddiad cychwyn. Allaf i ddim aros i ni gyrraedd pwynt lle, ymhen pum mlynedd, o bosibl, pan fydd pobl yn talu'r ernesau **ar gyfer poteli gwydr**, byddwn ni'n gweld gwahaniaeth gwirioneddol sylweddol ar lawr gwlad.

Gobeithio bod yr eglurhad hwn yn ddefnyddiol ac yn sicrhau bod y sefyllfa gywir yn amlwg
ochr yn ochr â Chofnod y Trafodion.

Byddwn yn ddiolchgar pe gellid cyhoeddi'r llythyr hwn ochr yn ochr â'r Cofnod.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Llyr Gruffydd', with a long horizontal flourish underneath.

Llyr Gruffydd AS/MS

Y Gweinidog Cabinet dros Wydnwch Gwledig a Chynaliadwyedd
Cabinet Minister for Rural Resilience and Sustainability